OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2448 (Cy.211)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn hwn o ganlyniad i'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009"). Mae Rhan 7 o Ddeddf 2009 yn sefydlu Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau ac yn gosod ei swyddogaethau. Mae Rhan 8 o Ddeddf 2009 yn gwneud darpariaeth i'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a sefydlwyd o dan adran 21 o Ddeddf Addysg 1997, barhau mewn bodolaeth fel yr Awdurdod Datblygu Cymwysterau a Chwricwlwm ac yn diwygio ei swyddogaethau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992 o ganlyniad i'r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 7 o Ddeddf 2009, a'r diwygiadau i adran 30 o Ddeddf Addysg 1997 gan Ddeddf 2009 (swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymwysterau allanol galwedigaethol ac academaidd) a wnaed gan Atodlen 12 i Ddeddf 2009.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2448 (W.211)

# COUNCIL TAX, WALES

## The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order is made as a consequence of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 ("the 2009 Act"). Part 7 of the 2009 Act establishes the Office of Qualifications and Examinations Regulation and sets out its functions. Part 8 of the 2009 Act makes provision for the Qualifications and Curriculum Authority, established under section 21 of the Education Act 1997, to continue in existence as the Qualifications and Curriculum Development Agency and amends its functions.

This Order amends the Council Tax (Discount Disregards) Order 1992 in consequence of the provisions contained in Part 7 of the 2009 Act, and the amendments to section 30 of the Education Act 1997 by the 2009 Act (functions of the Welsh Ministers in relation to external vocational and academic qualifications) made by Schedule 12 to the 2009 Act.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2448 (Cy.211)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Hydref 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Hydref 2010* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992**

**2**.–(1) Diwygir Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992(**3**) fel a ganlyn.

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S 1999/672), a'u breinio'n ddiweddarach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1992/548, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619; O.S. 1996/636; O.S. 1996/3143; O.S. 1997/656; O.S. 1998/291; O.S. 2003/673 (Cy.83); O.S. 2003/3121; O.S. 2004/1771; O.S. 2004/2921 (Cy.260); Paragraff 2 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg 2005 p.18; O.S. 2006/3396; O.S. 2007/580 (Cy.52), O.S. 2009/2054 ac O.S. 2010/677.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2448 (W.211)

# COUNCIL TAX, WALES

## The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 October 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *7 October 2010* |
| *Coming into force* | *1 November 2010* |

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by paragraph 4 of Schedule 1 to the Local Government Finance Act 1992(**1**) and now vested in them(**2**).

**Title, commencement, and application**

**1**.–(1) The title of this Order is The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2010, and it comes into force on 1 November 2010.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**Amendment of the Council Tax (Discount Disregards) Order 1992**

**2**.–(1) The Council Tax (Discount Disregards) Order 1992(**3**) is amended as follows.

(**1**) 1992 c.14.

(**2**) The functions of the Secretary of State, in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), and were subsequently vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(**3**) S.I. 1992/548, as amended by S.I. 1994/543; S.I. 1995/619; S.I. 1996/636; S.I. 1996/3143; S.I. 1997/656; S.I. 1998/291; S.I. 2003/673 (W.83); S.I. 2003/3121; S.I. 2004/1771; S.I. 2004/2921 (W.260); Paragraph 2 of Schedule 18 to the Education Act 2005 c.18; S.I. 2006/3396; S.I. 2007/580 (W.52), S.I. 2009/2054 and S.I. 2010/677.

(2) Ym mharagraff 1(1)(b) o Atodlen 1, yn lle'r geiriau "a qualification accredited by" hyd at y diwedd rhodder–

"–

(i) a qualification to which Part 7 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**1**) applies which is awarded or authenticated by a body which is recognised by the Office of Qualifications and Examinations Regulation under section 132 of that Act in respect of the qualification, or

(ii) a qualification accredited by the Scottish Vocational Education Council, or

(iii) a "relevant qualification" within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**2**) which is awarded or authenticated by a body recognised by the Welsh Ministers under section 30(1)(e)(**3**) of that Act in respect of the qualification.".

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2010

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) 2009 p.22.

(**2**) 1997 p.44. Disodlwyd is-adran (5) o adran 30 gan adrannau 174 ac 192 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, a pharagraffau 12, 15(1) a (6) o Atodlen 12 iddi.

(**3**) Disodlwyd is-adran (1) o adran 30 gan erthygl 9(1) o O.S. 2005/3239 a pharagraffau 6 ac 15(a) o Atodlen 1 iddo, a'i disodli ymhellach gan adrannau 174 ac 192 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, a pharagraffau 12, 15(1) a (2) o Atodlen 12 iddi.

(2) In paragraph 1(1)(b) of Schedule 1, for the words "a qualification accredited by" to the end substitute–

"–

(i) a qualification to which Part 7 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**1**) applies which is awarded or authenticated by a body which is recognised by the Office of Qualifications and Examinations Regulation under section 132 of that Act in respect of the qualification, or

(ii) a qualification accredited by the Scottish Vocational Education Council, or

(iii) a "relevant qualification" within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**2**) which is awarded or authenticated by a body recognised by the Welsh Ministers under section 30(1)(e)(**3**) of that Act in respect of the qualification.".

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

6 October 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2009 c.22.

(**2**) 1997 c.44. Sub-section (5) of section 30 was substituted by sections 174 and 192 of, and paragraphs 12, 15(1) and (6) of Schedule 12 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009.

(**3**) Sub-section (1) of section 30 was substituted by article 9(1) of, and paragraphs 6 and 15(a) of Schedule 1 to S.I. 2005/3239, and further substituted by sections 174 and 192 of, and paragraphs 12, 15(1) and (2) of Schedule 12 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2448 (Cy.211)

## Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2448 (W.211)

## COUNCIL TAX, WALES

The Council Tax (Discount Disregards) (Amendment) (Wales) Order 2010

£4.00

W760/10/10 ON